



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Gollwng plant wrth yr ysgol - 8.30 – 9 o’r gloch** — mae’r drefn yma wedi gweithio’n dda yn ystod y bythefnos gyntaf ac rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich cydweithrediad. Mi fydd y drefn yma yn parhau. Mae’r trefniant newydd wedi cael effaith bositif iawn ar lif y drafnidiaeth ger yr ysgol ac rydym yn gobeithio fod eich plant wedi addasu i’r drefn newydd.

**Clwb Brecwast** - Mi fydd y Clwb Brecwast ar gael i’r plant hynny sy’n dymuno cael brecwast rhwng 8.15 ac 8.30 yn neuadd yr ysgol o ddydd Llun ymlaen. O 8.30 ymlaen (yn dilyn cael brecwast) mi fydd y plant hynny yn mynd i’w dosbarthiadau gan ddilyn y drefn sydd wedi bodoli ers dechrau’r tymor. Mi fyddwn yn cadw’r plant sy’n dod i’r Clwb Brecwast yn eu grwpiau dosbarthiadau gan ddefnyddio gwahanol ardaloedd / byrddau yn y neuadd. Mi fydd dŵr, sudd ffrwythau, iogwrt a ffrwythau ar gael. **MI FYDD RHAI D I CHI ARCHEBU LLE** drwy e-bostio swyddfa’r ysgol ar [swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk) cyn 3.30 ddydd Gwener, Medi’r 11eg

**Talu am ginio ysgol** - mi fydd cinio ysgol poeth yn cael ei ddarparu gan y gegin o ddydd Llun ymlaen. Eleni mae ysgolion Ceredigion yn symud i system dalu di-arian. Mi fyddwch wedi derbyn e bost yn egluro’r drefn newydd gan [platform@parentpay.com](mailto:platform@parentpay.com) gyda’r testun ‘Ceredigion activation letter’. Gwnewch y siŵr eich bod wedi darllen yr e-bost i gyd, cwblhau’r manylion a rhoi arian ar y system cyn dydd Llun os gwelwch yn dda. Rydym yn ymwybodol iawn fod y drefn hon yn newydd ac mi fyddwn yn gwneud ein gorau glas i’ch cynorthwyo yn ystod yr wythnosau cyntaf tan fod pawb wedi cyfarwyddo â’r drefn. Mi fydd cinio ysgol am ddim yn parhau i blant penodol. Mae croeso i chi barhau gyda bocs bwyd os ydych yn dymuno. Peidiwch â phoeni os na fydd y system yn gweithio i chi yn syth - fe wnawn ni’n siŵr y bydd eich plentyn yn derbyn cinio.

**Casglu plant ar ddiwedd dydd** – diolch am bob cymorth gyda chasglu disgyblion ar ddiwedd y dydd. Hoffwn eich atgoffa i fod yn brydlon ac i barchu’r rheol ymbellhau cymdeithasol wrth i chi ymgynnull gydag oedolion eraill ger y gatiau.

**Gweithredu Teams** - yn ystod yr wythnosau nesaf mi fyddwn am sicrhau fod holl ddisgyblion a rhieni / gwarcheidwaid yr ysgol yn medru cael mynediad i raglen Teams. Rydym am sicrhau fod gennym gyswllt effeithiol er mwyn darparu gwaith i’r disgyblion pe bai rhaid cau dosbarth neu ran o’r ysgol ar frys. Gofynnir i chwi dalu sylw arbennig i’r mater yma pan gewch lythyr gan athro/athrawes eich plentyn gyda **manyion logio i mewn**. Os ydych yn anghyfarwydd gyda Microsoft Teams, dyma gwpwl o ddolenni i egluro:

> [Logio i mewn i Hwb a Teams](#)

> [Sut i gyrraedd Assignments yn Teams](#)

**Os es gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith**

R C Williams

Pennaeth

09/09/2020



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Arriving at school - 8.30 - 9 o'clock** — *this system has worked well during the first two weeks and we are very grateful for your co-operation. This system will continue. The new arrangement has had a very positive impact on the flow of traffic near the school and we hope your children have adapted to the new arrangements.*

**Breakfast Club** - *The Breakfast Club will be available for those children who wish to have breakfast between 8.15 and 8.30 in the school hall from Monday. From 8.30 onwards (after breakfast) those children will be going to their classes following the arrangements that have been in place since the beginning of term. We will keep the children who come to the Breakfast Club in their class groups using different areas / tables in the hall. Water, fruit juice, yoghurt and fruit will be available. **YOU MUST BOOK A PLACE** by emailing the school office at [swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk) before 3.30 on Friday, September 11<sup>th</sup>.*

**Paying for school lunches** - *a hot school lunch will be available from the school kitchen from Monday. This year Ceredigion schools are moving to a cashless payment system. You will have received an email explaining the new procedure from [platform@parentpay.com](mailto:platform@parentpay.com) with the subject 'Ceredigion activation letter'. Please make sure you have read the email in its entirety, completed the details and put money into the system before Monday. We are very aware that this procedure is new and we will do our best to assist you in the first few weeks until everyone is familiar with the procedure. Free school meals will continue for certain children. Feel free to continue with a lunch box if you wish. Don't worry if the system doesn't work for you right away - we will make sure your child receives lunch.*

**End of day collection** - *thank you for your co-operation with collecting pupils at the end of the day. I would like to remind you to be punctual and to respect social distancing as you congregate with other adults at the gates.*

**Using Teams** - *in the coming weeks we will want to ensure that all pupils and parents / guardians of the school have access to Teams. We want to make sure that we have an effective system to provide work for pupils should a class or part of the school have to close urgently. Please pay particular attention to this issue when you receive a letter from your child's teacher **with login details**. If you are unfamiliar with Microsoft Teams, here are a couple of links to help explain:*

> [Logging in to Hwb and Teams](#)

> [How to reach Assignments on Teams](#)

**If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately**

**R C Williams**

**Headteacher**  
**10/09/2020**